# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Cae Crwn**

**Cartref Gofal Plas Cae Crwn**
**Park Street**
**Y Drenewydd**
**SY16 1EW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas Cae Crwn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Shaw healthcare (Cambria) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Hydref 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Plas Cae Crwn yn cael eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar ac ymrwymedig sy'n trin y bobl â pharch. Maent yn gallu mwynhau rhaglen weithgareddau amrywiol a chânt eu cynnwys wrth ddatblygu'r rhaglen hon. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn darparu gwybodaeth dda i'r staff gofal ei dilyn. Mae angen gwella cyfleoedd i'r bobl gael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu canlyniadau personol a rhoi mwy o ddewis iddynt mewn perthynas â rhai agweddau ar eu gofal personol. Hefyd, mae angen gwella'r archwiliadau a gynhelir o'r cofnodion iechyd a'r trefniadau rheoli meddyginiaethau er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor iach a diogel â phosibl. Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae angen gwella'r cymorth a'r arweiniad a roddir i'r staff gofal fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus yn eu rolau. Mae'r amgylchedd yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn. Ar y cyd â gweddill y tîm uwch-reolwyr, mae'n ymrwymedig i wella ac i ddatblygu'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'n rhagweithiol ac yn ymatebol i'r materion a gaiff eu codi.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a rheolaeth dros y rhan fwyaf o'r meysydd sy'n gysylltiedig â'u bywyd o ddydd i ddydd. Gallant ddewis ble i dreulio eu diwrnod, pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt a beth yr hoffent ei fwyta a'i yfed. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i wneud penderfyniadau ynghylch pryd a pha mor aml y byddant yn cael bath neu gawod, neu i fod yn rhan o'r broses o adolygu canlyniadau yn eu cynlluniau personol yn gyfyngedig. Cânt gyfleoedd i roi barn ar y gwasanaeth, ond ni chaiff yr awgrymiadau bob amser eu rhoi ar waith yn gyflym. Mae'r darparwr yn gweithio tuag at y Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Mae'r arwyddion o amgylch y cartref yn ddwyieithog a gellir darparu'r dogfennau allweddol ar ffurf ddwyieithog hefyd.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u llesiant corfforol ac emosiynol. Gall y bobl wneud cyn lleied neu gymaint ag yr hoffent gyda'u hamser. Mae'r cydgysylltwyr gweithgareddau yn gweithio'n galed i ddod i adnabod y bobl er mwyn gallu teilwra gweithgareddau at eu dewisiadau unigol. Siaradodd y bobl yn frwdfrydig am daith sydd wedi cael ei chynllunio ar gamlas ac am daith ddiweddar i'r ganolfan arddio. Maent yn mwynhau ymweliadau gan ffrindiau ac aelodau o'u teulu. Gwelsom y bobl yn treulio amser yn eu hystafelloedd yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt gan gynnwys darllen neu wylio'r teledu. Roedd pobl eraill yn mynd allan i gwrdd â ffrindiau yn y gymuned. Mae'r wybodaeth yn y cynlluniau personol wedi gwella ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau a monitro anghenion iechyd er mwyn gwella canlyniadau'r bobl a'u cadw'n ddiogel.

Mae'r prosesau i gadw pobl mor ddiogel â phosibl wedi gwella, ond mae angen eu monitro ymhellach. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod pa broses i'w dilyn os byddant yn pryderu am lesiant y bobl. Maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i ddiogelu. Caiff atgyfeiriadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu gwneud er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o amddifadu pobl o'u rhyddid yn cael ei weithredu mewn ffordd gyfreithiol. Trefnwyd hyfforddiant pellach i'r tîm rheoli a'r staff er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r maes hwn.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Mae eu hystafelloedd gwely wedi'u personoli i adlewyrchu eu hanghenion a'u ffordd o fyw. Mae systemau ar waith i nodi risgiau i iechyd a diogelwch a'u lliniaru er mwyn cefnogi llesiant y bobl sy'n rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr wedi rhoi mesurau ar waith i helpu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac i sicrhau yr ymdrinnir â materion a godwyd fel rhan o atgyfeiriadau diogelu diweddar ac fel rhan o'r arolygiad er budd y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn mwynhau cydberthnasau da â'r staff gofal sy'n garedig ac yn ystyriol. Maent yn gwybod beth sy'n bwysig i'r bobl. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar rhwng yr unigolion a'r staff gofal, a oedd yn rhoi tawelwch meddwl ac arweiniad tyner pan oedd angen gwneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym "*Staff are very kind*" ac "*I feel well looked after here.*"

Mae'r staff gofal yn gweithio'n galed i ddarparu gofal a chymorth yn unol â chynlluniau personol y bobl. Mae'r dogfennau hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dangos beth sy'n bwysig i'r person. Maent yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyfredol i'r staff gofal ei dilyn. Mae'r asesiadau risg yn cynnwys canllawiau clir i leihau unrhyw risg a nodwyd i'r unigolyn. Er bod rhai o'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr wedi cael cyfleoedd i adolygu eu canlyniadau personol, nid yw pawb wedi cael yr un cyfle eto. Cafodd hyn ei godi fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae'r darparwr wedi rhoi sicrwydd y bydd unigolion a/ neu eu cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i gael eu cynnwys mewn adolygiadau rheolaidd. Mae'n parhau i fod yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Byddai gwneud rhai gwelliannau i'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael yn gwella eu llesiant ac o fudd iddynt. Mae'r darparwr wedi rhoi mesurau ar waith i gryfhau'r broses dderbyn. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu gwell â gweithwyr proffesiynol allanol cyn derbyn unigolion a chyfarfodydd rheolaidd er mwyn helpu'r bobl i drosglwyddo i'r gwasanaeth. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos nad yw'r bobl yn cael bath neu gawod mor aml ag yr hoffent eu cael. Cafodd y mater hwn ei godi ganddynt yn ystod y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir i breswylwyr/perthnasau. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff gofal a ddywedodd wrthym fod prinder staff yn effeithio ar y gofal y gallant ei roi i'r bobl. Caiff staff asiantaeth eu defnyddio pan na fydd digon o aelodau o staff parhaol ar gael, ond mae'n aml yn anodd dod o hyd i staff ar fyr rybudd. Dywedodd rhai o'r bobl sy'n dewis bwyta eu prydau bwyd yn eu hystafelloedd gwely wrthym nad yw'r bwyd bob amser mor gynnes ag y dylai fod. Gwelsom fod y mater hwn wedi cael ei godi'n flaenorol mewn cyfarfod i breswylwyr, ond nad ymdriniwyd ag ef yn ddigonol. Caiff gwybodaeth am anghenion iechyd unigolion ei chofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn cysylltu â gwasanaethau meddygol ond nad yw'r cyswllt hwn bob amser yn amserol nac yn gyson. Nid yw'r cofnodion ar gyfer y bobl y mae angen monitro'r hyn y maent yn ei fwyta ac yn ei yfed er mwyn cynnal eu llesiant bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn, nac yn cael eu monitro'n briodol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r darparwr yn defnyddio system electronig i reoli meddyginiaethau. Mae'r staff gofal sy'n rhoi meddyginiaethau yn cael hyfforddiant, a chaiff eu cymhwysedd ei asesu'n rheolaidd. Caiff archwiliadau meddyginiaeth eu cynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom wallau yn y ffordd y caiff meddyginiaethau eu rheoli, a allai effeithio ar lesiant y bobl. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae angen gwella'r prosesau ar gyfer cadw'r bobl mor ddiogel â phosibl ymhellach.  Mae'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn parhau i beri risg bosibl o niwed i'r bobl ac o effaith ar eu llesiant. Mae hyn yn cynnwys anghysondeb wrth fonitro anghenion iechyd y bobl, enghreifftiau o fethu â chysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol, a threfniadau annigonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae'n parhau i fod yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n helpu i hybu eu hannibyniaeth. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol ar un llawr sy'n golygu eu bod yn hygyrch. Mae'r arwyddion dwyieithog yn helpu'r bobl i symud o gwmpas yr adeilad. Gwelsom bobl a oedd yn gallu gwneud hynny yn cerdded o amgylch y cartref yn hwylus ac yn treulio amser yn yr ardd sy'n hygyrch. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eitemau sydd o bwys iddynt. Gwelsom unigolion yn treulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain neu'n cymdeithasu yn y lolfeydd. Gwnaethant ddweud bod y staff gofal yn parchu eu penderfyniadau o ran ble yr hoffent dreulio eu hamser. Mae'r ardal awyr agored yn hygyrch ac yn ddiogel. Byddai'n fuddiol adnewyddu'r dodrefn ardd yn ardal yr iard, ond mae'n cynnig ardal hyfryd a diogel i'r bobl ei mwynhau.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer y staff. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Dywedodd y staff cadw tŷ wrthym fod ganddynt ddigon o gyfarpar a chynnyrch i gyflawni eu swydd. Fe'u gwelsom yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn daclus. Roeddent yn sgwrsio mewn ffordd gyfeillgar â'r bobl yn eu hystafelloedd gwely wrth iddynt wneud eu gwaith.

Mae mesurau ar waith gan y gwasanaeth i gynnal a chadw cyfleusterau a chyfarpar. Ar adeg ein hymweliad, roedd swyddog cynnal a chadw newydd wedi cael ei recriwtio ac roedd y gwiriadau recriwtio gofynnol wrthi'n cael eu cynnal. Mae swyddog cynnal a chadw o wasanaeth arall sy'n rhan o'r sefydliad yn helpu'r cartref ar hyn o bryd. Cynhelir gwiriadau priodol gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân. Caiff y cyfarpar, gan gynnwys teclynnau codi a slingiau, ei brofi'n rheolaidd.

Mae'n rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn gallu dod i mewn a gofynnir i ymwelwyr gofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cyfrinachedd ei gynnal. Dim ond staff awdurdodedig all weld y cofnodion personél, ac mae'r cofnodion gofal yn cael eu cadw ar ffurf electronig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau rheolaidd o ddamweiniau, digwyddiadau, ac atgyfeiriadau diogelu. Caiff y rhain eu goruchwylio gan y tîm uwch-reolwyr sydd wedi bod yn rhagweithiol wrthymdrin â materion a godwyd fel rhan o ymchwiliadau diogelu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad ag unigolion a'r staff gofal er mwyn cael gwybod eu barn. Mae adolygiad bob chwe mis o'r gwasanaeth yn dangos beth sy'n gweithio'n dda a lle mae angen gwneud gwelliannau.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu swydd ond nad ydynt bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethant ddweud wrthym fod morâl ymhlith y tîm yn isel. Mae prinder gweithwyr gofal yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Maent yn dibynnu'n helaeth ar weithwyr asiantaeth er mwyn helpu i sicrhau bod digon o staff yn y cartref, tra bod y darparwr wrthi'n ceisio recriwtio aelodau o staff parhaol i'r tîm. Mae rhai o'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli, gan nodi bod aelodau'r tîm yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Un sylw oedd "*I love my job*." Mae eraill yn teimlo'n rhwystredig na chaiff materion sy'n cael eu codi bob amser eu hystyried mewn modd amserol. Mae rhai o'r sylwadau'n cynnwys "*nothing changes*," a "*we are not listened to*." Mae amlder y cyfarfodydd un i un rhwng y staff gofal a'u rheolwyr llinell wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Ni lwyddwyd i gwblhau'r holl arfarniadau blynyddol o'u gwaith, sy'n cynnig cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu hymarfer a nodi unrhyw feysydd hyfforddi a datblygu i'w cefnogi yn eu rôl, yn ystod yr amserlen ofynnol. Cawsom sicrwydd gan y darparwr y bydd yn ymdrin â hyn. Mae cymorth i staff yn parhau i fod yn faes i'w wella er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl, a'u bod yn hyderus y bydd unrhyw faterion y byddant yn eu codi gyda'r tîm rheoli yn cael eu hystyried mewn modd amserol.

Mae'r arferion recriwtio yn sicrhau na fydd aelodau newydd o staff yn dechrau gweithio hyd nes y bydd yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cynnal. Cânt gymorth i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cyfleoedd hyfforddiant wedi gwella, ac mae rhagor o gyfleoedd wedi'u cynllunio er mwyn datblygu sgiliau'r tîm staff gofal ymhellach.

Mae'r darparwr yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau er mwyn llunio, datblygu a gweithredu diwylliant sy'n sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni i'r bobl. Neilltuwyd mwy o adnoddau rheoli er mwyn helpu i redeg y cartref o ddydd i ddydd. Mae cynlluniau gweithredu wrthi'n cael eu datblygu sy'n ystyried canlyniadau cyfarfodydd

diogelu diweddar a'r materion a godwyd fel rhan o'r arolygiad hwn er mwyn helpu i wella canlyniadau i'r bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr arferion ar gyfer rhoi meddyginiaethau yn cefnogi llesiant yr unigolion ac yn eu galluogi i gael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd. | Newydd |
| 21 | Nid yw safonau'r gofal a'r cymorth bob amser yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol, ac mae hynny'n cael effaith ar eu llesiant. | Newydd |
| 16 | Ni chaiff y bobl bob amser eu cynnwys wrth adolygu eu canlyniadau personol yn rheolaidd | Heb Gyflawni |
| 26 | Mae angen gwella'r prosesau sydd ar waith i wneud yn siŵr bod y bobl mor ddiogel ag y gallant fod er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl. | Heb Gyflawni |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniadau o'u gwaith. | Heb Gyflawni |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol na'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth ddigonol a chywir am sut y dylid darparu gofal y bobl. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2024